

Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

Natural Resource Management Bulletin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 19 – Chwefror 2015

Bil yr Amgylchedd

I helpu i lywio proses graffu y Cynulliad ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil Cynllunio (Cymru), lluniwyd dogfen yn egluro'r cysylltiadau rhwng y Biliau hyn a Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd ar y gweill.

Mae prif nodau'r tri Bil fel a ganlyn:

- Mae ein Bil Cynllunio'n sicrhau bod y broses gynllunio yng Nghymru'n deg, yn gyson ac y caiff y pethau cywir eu hadeiladu yn y manau cywir
- Mae ein Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau y gwnawn y penderfyniadau cywir ar ein cyfer yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Bydd ein Bil yr Amgylchedd yn ein helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a mwy cydgysylltiedig

Yn syml, nod cyffredinol y Biliau hyn yw rhoi ar waith y ddeddfwriaeth y mae ei hangen i'n galluogi i sicrhau llesiant hirdymor Cymru.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-bill/?skip=1&lang=cy>

<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/150223-three-bills-diagram-cy.pdf>

Cymru yw'n gwlad ni – Dewch i ni ofalu amdani!

Yn galw ysgolioniau a chynradd Cymru – Lluniwch boster a gallwch ennill hyd at £250 i bwyllgor eco eich ysgol – Dyddiad cau – 27 Mawrth

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio mesur newydd i sicrhau ein bod yn gofalu am amgylchedd Cymru a'i chyfoeth naturiol. I wneud hynny mae angen cymorth plant arnom. Byddwn yn ddiolchgar os gallwch gylch-rhedeg hyn i ysgolion iau a chynradd yn eich ardal. Rydym yn gofyn i

ddisgyblion lunio boster lliwgar yn seiliedig ar yr hyn y mae'r amgylchedd lleol yn ei roi i bobl ac yn cynnig cyfle i ennill hyd at £250 o dalebau i Bwyllgor Eco eu hysgol lleol.

Gallai'r poster fod yn seiliedig ar chwarae mewn parc lleol, cerdded, beicio neu dyfu llysiau. Gallai gyfeirio at bwysigrwydd aer glân, dwr glân a phridd iach ar gyfer tyfu planhigion, coed a chnydau. Hoffem pe byddai'r plant yn defnyddio eu dychymyg er mwyn dangos beth sy'n bwysig iddynt, a beth sy'n gwneud ein hamgylchedd mor arbennig.

Mae'r ffurflen gais yma a'r nodiaidau i athrawon am yr holl wybodaeth sydd angen er mwyn gystadlu.

Dylai ysgolion anfon eu posteri atom erbyn dydd Gwener 27 Mawrth, 2015 er mwyn cael cyfle i ennill.

Y Gronfa Natur – Canolbwyntio ar yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur

Y mis hwn, bydd Canolbwyntio ar Ardaloedd Gweithredu Byd Natur ym Mannau Brycheiniog a hefyd y prosiect ledled Cymru'n sy'n cael ei arwain gan Coed Cymru a'r Ymddiriedolaeth Afonydd.

Mae prosiect **Adfywio Ecosystemau y Mynydd Du** yn cael ei arwain gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i nod yw cydweithio â pherchnogion y rhostiroedd i ddatblygu rhaglen barhaus i wella'r rhostiroedd, gweunydd mawn a chynefinoedd eraill yn y Mynydd Du. Mae'r gwaith wedi dechrau gyda gwelliannau i'r llwybr troed ar y Waun Fach. Bydd y gwaith yn y Waun Fach yn helpu i ddiogelu'r gweunydd mawn bregus a'r bywyd gwyllt, ac o adfer y gors bydd cymunedau ehangach yn elwa gan y bydd yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma:

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-mid-wales-31576196> (dolen allanol)

Mae prosiect Adfer Ucheldiroedd y Berwyn a'r Migneint, y Mynydd Du a Maesyfed hefyd yn gwneud gwaith i wella ucheldiroedd Bannau Brycheiniog. Nod y prosiect yw gweithio â pherchnogion y rhostiroedd a phawb sy'n ymwneud â'r prosiect er mwyn gallu rheoli'r ucheldiroedd mewn dull cynaliadwy yn yr hirdymor er budd bioamrywiaeth a chymunedau pell ac agos. FWAG Cymru sy'n rheoli'r prosiect hwn.

Nod Cynllun Pridd a Dŵr Coed Cymru a'r Ymddiriedolaeth Afonydd yw cynnal gwell dulliau o reoli pridd a dŵr a seilweithiau ffermydd. Mae'r prosiect wedi datblygu'n dda ac wedi denu diddordeb sylweddol gan dirfeddianwyr. Mae'r gwaith cyfalaf ar y gweill megis codi ffensys o amgylch cyrsiau dŵr, adfer gwrychoedd (perthi) plannu coetiroedd bychain a gwella ffermydd er budd y pridd a'r dŵr. Mae datblygiadau pellach wedi'u gwneud hefyd gyda'r cynlluniau Rheoli Pridd a Dŵr, gydag oddeutu 150 yn cael eu datblygu a 40 o gynlluniau wedi'u cwblhau eisoes. Bydd y cynlluniau hyn yn tynnu sylw at y cyfleoedd sydd er budd y dŵr, pridd, natur a busnes y fferm. Bydd pob daliad yn derbyn 'SCIMAP' hefyd ar gyfer eu hardaloedd amlygu tir sydd mewn perygl o weld dŵr yn llifo dros y tir ac erydu tir.

Mae manylion cyswllt pob prosiect ar wefan y Gronfa Natur

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cv>

Hefyd, bydd ffeithlenni am brosiectau'r Gronfa Natur ar gael yn fuan ar ein gwefan – cadwch lygad amdany'n nhw.

Meysydd eraill o ddiddordeb

Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) - Ymgynghoriad ar y Rhaglen o Fesurau - Gweithdy Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

Mae'r DU yn dechrau ar y trydydd cam i weithredu Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD).

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig i ddatblygu Rhaglen o Fesurau arfaethedig. Lanswyd y cyd-ymgynghoriad ar y rhaglen arfaethedig ar 30 Ionawr a daw i ben ar 24 Ebrill.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gweithdy rhanddeiliaid i drafod y mesurau a rhoi gwybod iddynt am y broses ymgynghori a sut y gallant gymryd rhan.

Dyddiad: 6 Mawrth 2015

Lleoliad: Caerdydd

Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon at randdeiliaid maes o law a nifer cyfyngedig o leodd fydd ar gael. Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os hoffech gael gwahoddiad, anfonwch e-bost at marine@wales.gsi.gov.uk.

Mae'r Rhaglen o Fesurau'n ymdrin ag 11 o safonau, neu ddisgrifiyddion unigol, ac fe'i dyluniwyd i gyflawni neu gadw Statws Amgylcheddol Da (GES) yn ein dyfroedd erbyn 2020.

Dyma'r 3^{ydd} cam i weithredu Strategaeth Forol ar gyfer y DU.

Cam 1 – Asesiad cychwynnol o'n moroedd, nodweddion Statws Amgylcheddol Da a thargedau a dangosyddion a fydd yn ein harwain at Statws Amgylcheddol Da. Gweler y ddolen gyswllt i Ran Un Strategaeth Forol y DU (dolen allanol)

<https://www.gov.uk/government/publications/marine-strategy-part-one-uk-initial-assessment-and-good-environmental-status>

Cam 2 – Rhaglenni monitro ar waith i fesur ein cynnydd. Gweler y ddolen gyswllt i Ran Dau Strategaeth Forol y DU (dolen allanol)

<https://www.gov.uk/government/publications/marine-strategy-part-two-uk-marine-monitoring-programmes>

Cam 3 – Rhoi Rhaglen o Fesurau ar waith erbyn 2016.

Am ragor o wybodaeth am Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a sut y gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ewch i'n gwefan:

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/marine-strategy-framework-directive/?lang=cy>

Cynlluniau i ddisodli Treth Tirlenwi Cymru

Yn ddiweddar, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion i ddisodli Treth Tirlenwi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi i ddisodli Treth Tirlenwi'r Deyrnas Unedig pan gaiff y maes ei ddatganoli i Gymru ym mis Ebrill 2018. Am y tro cyntaf, bydd Cymru'n gallu datblygu treth sy'n bodloni anghenion ei chymunedau a'i busnesau ei hun. Dyma'ch cyfle chi i ddweud eich dweud ar y mater a'n helpu ni i lunio'r dreth newydd hon.

Ym 1996 y cyflwynwyd y Dreth Tirlenwi a hynny fel treth ymddygiadol amgylcheddol i annog ail ddefnyddio, ailgylchu ac adfer yn ogystal â lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae'n effeithio ar amrywiaeth eang o fuddiannau – o fusnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a pherchnogion safleoedd tirlenwi i amrywiaeth o gyrff yn y trydydd sector, fel elusennau.

Mae'r ymgynghoriad yn gobeithio gwneud y canlynol:

- o Gwneud yr elfennau o'r dreth bresennol sy'n ddryslyd ac y mae ansicrwydd yn eu cylch yn fwy clir
- o gwella cydymffurfiaeth a gorfodaeth, a'i gwneud yn anoddach efadu ac osgoi trethi
- o moderneiddio'r ffordd y mae'r dreth yn cael ei gweinyddu fel ei bod yn fwy effeithiol ac yn rhoi llai o faich ar fusnesau
- o archwilio a fyddai modd defnyddio cyfran o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles ein cymunedau

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi bod angen sefydlogrwydd a sicrwydd yn yr hirdymor ar fusnesau fel sylfaen i'w cynlluniau a'u buddsoddiadau. Fel cynhyrchwyr a rheolwyr gwastraff, bydd y cynigion hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonoch. Felly, mae'n hollbwysig eich bod yn dweud eich barn am bwysigrwydd cynnal cysondeb gyda Lloegr a'r Alban, yn ogystal â newidiadau y gellid eu gwneud i sicrhau bod y dreth newydd yn bodloni gofynion ac amgylchiadau Cymru.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 19 Mai ond byddwn yn dal i dderbyn sylwadau gan rhanddeiliaid wrth i'r dreth gael ei datblygu ar gyfer Cymru. Os hoffech chi gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio a chael gwybod sut i rannu'ch sylwadau chi, defnyddiwch y cyfeiriad blwch postio isod.

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch y Blwch Post Diwygio Ariannol FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk neu lawrlwythwch yr ymgynghoriad oddi ar wefan Llywodraeth Cymru. www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: [Rhedi Adnoddau Naturiol](#)

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys [Cwestiynau Cyffredin](#), [pecyn gwybodaeth](#) a rhai [astudiaethau achos](#).

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk

